

Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mawrth 12fed 2019 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Gwynedd Jones (Cadeirydd), Geraint Jones, Huw Charles, Euros Puw, Arwel Davies Gwynfryn Williams, Cyng. Elwyn Edwards a'r cler.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rhys Richards, Jean Roberts a Geraint Davies.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Chwefror a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Graeanu ffyrdd a biniau halen.

Adroddodd y cler fod y Cyng. Elwyn Edwards a hithau wedi cwrdd gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i drafod y cwynion a derbyniwyd am y diffyg graean ar y ffyrdd yn yr ystod y tywydd garw yn ddiweddar a'u penderfyniad i beidio llenwi'r biniau halen. Roedd y swyddogion yn cydnabod eu cyfrifoldeb i ddiogelu'r cyhoedd a oedd yn defnyddio'r ffyrdd a chytunwyd i sicrhau fod y ffyrdd cefn yn cael eu graeanu yn ddyddiol yn ystod tywydd garw. Cytunwyd i gwrdd yn ddiweddarach yn y flwyddyn i adolygu'r sefyllfa. Nid oedd posib iddynt gytuno i lenwi'r biniau halen a phenderfyniad y Cyngor Cymuned fyddai i ariannu hyn.

b) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-

a) Culfet Fedw Arian a gwteri rhiw Heol Ffrydan - roedd cyfarwyddiadau wedi ei roi i'r gweithlu lanhau'r draenau a'r gwyliau mor fuan â phosib.

b) Dwr yn hel ar yr A4212 ger Rhydyfen, Arenig - roedd yr Arolygwr Ffyrdd wedi cyfarfod ar y safle gyda Geraint Jones ac wedi rhoi cais ar y rhaglen wait hi lahou draenau, gwaith ffosydd a rhorri coed er ceisio gwella'r sefyllfa.

c) Coeden Helyg, ar y terfyn rhwng Fondro a Cefnbodig, Llanycil - roedd yr Arolygwr Ffyrdd wedi trafod gyda Gwynfryn Williams ac wedi trefnu torri'r goeden.

ch) Llwybr troed ger Troed y Banc, Rhyduchaf - roedd y Swyddog Llwybrau Cyhoeddus wedi cysylltu â'r perchennog i sicrhau na fydd y llwybr yn parhau i gael ei gau i ffwrdd gan y biniau ysbwriel.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn/ Canolfan Henblas.

i) Gwybodaeth am y sesiynau roedd Gwynedd Digidol yn ei gynnal yn y ganolfan i gynorthwyo'r cyhoedd gyda'i ffonau symudol ayyb.

ii) Derbyniwyd cais am gefnogaeth i'r pwyllgor geisio am grant Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi cyd-drefniadau rhwng y cynghorau. Cytunwyd yn unfrydol i gefnogi eu cais.

b) Amrywiol.

i) Cyngor Iechyd Cymuned – 'Arolwg Gwasanaeth Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu 2019'. Dosbarthwyd copïau o'r holiadur a manylion sut i'w gwblhau ar-lein.

ii) Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - cafwyd cadarnhad fod y Panel wedi mabwysiadu'r 'Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2019/20'. Cafwyd braslun o'r argymhellion a'r oblygiadau i'r Cyngor a'r cynghorwyr. Cytunwyd i fabwysiadu'r argymhellion a oedd yn orfodol a nodwyd fod angen i'r cynghorwyr hysbysu'r Cyngor drwy lythyr os nad oeddynt yn dymuno derbyn y taliadau penodol yma.

iii) Triathalon Y Bala – gwahoddiad i gyfarfod cyhoeddus yn Ysgol y Berwyn 25/3/18 am 6.30y.h. Gofynnwyd i'r cler basio'r manylion ymlaen i Jean Roberts a Geraint Davies a oedd wedi mynychu'r cyfarfodydd blaenorol ar ran y Cyngor.

v) Ceisiadau Cynllunio.

Nid oedd unrhyw geisiadau i'w drafod.

vi) Materion Ariannol.

i) Adroddiad Ariannol - monitro derbyniadau a thaliadau.

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Chwefror a chafwyd yn gywir.

ii) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

- 1) Cyflog y clerc (Ionawr i ddiwedd Mawrth).
- 2) CTHEM (TWE).
- 3) Neuadd Maesywaen (llogi).
- 4) Partneriaeth Penllyn (costau gweinyddol).
- 5) Un Llais Cymru (tal aelodaeth).

iii) Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd cyfrannu i'r mudiadau ac elusennau canlynol gan adael arian digonol tu cefn ar gyfer unrhyw wariant annisgwyl a all i'r godi yn y flwyddyn ariannol nesaf:-

1) Eisteddfod Talybont	£150
2) Cylch Meithrin/ Ti a Fi Maesywaen	£150
3) Neuadd Y Parc	£150 (Euros Puw yn datgan buddiant)
4) Ysgol Bro Tryweryn	£150
5) Ysgol y Berwyn	£25
6) Sioe Ardal Maesywaen	£50 (Huw Charles yn datgan buddiant)
7) Ambiwylans Awyr Cymru	£50
8) Urdd Gobaith Cymru Cylch Penllyn	£25
9) CFFI Meirionnydd	£100
10) Hosbis Tŷ'r Eos	£50
11) Cantref	£25 (Gwynedd Jones yn datgan buddiant)
12) Cloeswyr Tegid	£25

vii) Materion lleol.

a) Paenau gwydr wedi malu yn lloches bws Rhyduchaf.

Gofynnwyd i'r clerc gysylltu ag adeiladwr lleol i drefnu fod gwydr newydd yn cael ei osod.

b) Ffordd yn rhoi rhwng Cynythog Bach a Cloddau, Llidiardau.

Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd i ddweud fod y ffordd yn rhoi ac angen ei gryfhau cyn iddo waethygu.

c) Culfet ger Tyddyn Tegid, Rhyduchaf

Gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu â Chyngor Gwynedd i weld pryd oedd y gwaith am gael ei gwblhau.

**Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol ar Nos
Fawrth, Mai 14eg yn Neuadd Maesywaen
am 8.00 y.h**